

## Crynodeb o'r Interniaeth Bwyd Cynaliadwy a Masnach Deg INSPIRE

### Cefndir y rôl

Mae'r Brifysgol yn hyrwyddo ac yn gwerthu bwyd cynaliadwy lle bynnag y mae'n ymarferol. Rydym yn awyddus i ddatblygu hyn a dangos ein cefnogaeth i fwyd cynaliadwy a Masnach Deg. Rydym wedi adnewyddu ein statws Masnach Deg yn llwyddiannus ac yn awyddus i sicrhau ein bod yn ei gadw. Er mwyn cyflawni ein haddewid i gadw ein statws Masnach Deg a chynnal ein polisi Bwyd Cynaliadwy, hoffai'r Drindod Dewi Sant gyflogi myfyriwr israddedig ymroddedig fel intern i helpu i godi ymwybyddiaeth a chyfleu'r rhesymwaith ar gyfer cefnogi ffordd o fyw sy'n seiliedig ar fwyd cynaliadwy. Mae mwy o wybodaeth am Fasnach Deg ar gael ar wefan y Sefydliad Masnach Deg yma: <http://www.fairtrade.org.uk> a Masnach Deg Cymru yma: <http://fairtradewales.com/we/>

Bydd yr intern yn goruchwyllo Masnach Deg a Bwyd Cynaliadwy ar bob campws yn y Brifysgol (Llambed, Abertawe a Chaerfyrddin). Bydd yr intern Bwyd Cynaliadwy a Masnach Deg yn dod yn aelod o grŵp llywio Masnach Deg y Brifysgol yn awtomatig, a bydd disgwyl i'r intern gymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys myfyrwyr, staff a chynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr ac mae'n cwrdd dair gwaith y flwyddyn. Ei nod yw adfer a chynnal statws Masnach Deg y Brifysgol.

Bydd disgwyl i'r intern ddatblygu achos busnes ar gyfer deunydd pacio bwyd cynaliadwy i'r Brifysgol. Mae gan y Brifysgol nifer o fannau gwerthu bwyd sy'n gwerthu bwyd Masnach Deg a chynaliadwy ac yn darparu bwyd parod ac rydym yn awyddus i ddechrau defnyddio deunydd pacio bioddiraddadwy er mwyn lleihau ein gwastraff.

Bydd yr intern yn cynnal ymchwil i fentrau bwyd cynaliadwy ac achrediadau eraill a fyddai'n berthnasol i ni. Mae'r Brifysgol eisoes wedi derbyn nifer o achrediadau bwyd cynaliadwy, megis ein Nod Arlwygo Aur gan Gymdeithas y Pridd, ond hoffem archwilio'r cyfleoedd eraill sydd ar gael i ddatblygu ein hymrwymiad i fwyd cynaliadwy.

Bydd yr interniaid yn hyrwyddo bwyd cynaliadwy ar draws y Brifysgol. Byddant yn datblygu ymrwymiad y Brifysgol i weithgarwch Masnach Deg a bwyd cynaliadwy, trwy drefnu a chynnal digwyddiadau a hybu cyfranogiad myfyrwyr.

Mae'r interniaeth â thâl ac mae'n gyfle gwych i weithio ar y prosiect proffil uchel hwn. Rydym yn awyddus i chi fynd â hi i'r lefel nesaf drwy drefnu digwyddiadau, recriwtio cyd-fyfyrwyr a chael cynifer o adrannau â phosibl i gymryd rhan.

Bydd rôl yr Intern yn bwydo i mewn i'r 5 nod ar gyfer Masnach Deg:

1. Cadarnhau datganiad polisi Masnach Deg
2. Cael nwyddau Masnach Deg ar y campws
3. Defnyddio cynnyrch Masnach Deg mewn cyfarfodydd
4. Trefnu ymgyrchoedd Masnach Deg

## 5. Sefydlu Grŵp Llywio Masnach Deg.

Bydd croeso arbennig i ymgeiswyr sydd â syniadau creadigol ar gyfer sefydlu a hyrwyddo ethos Masnach Deg a bwyd cynaliadwy yn y Brifysgol a thu hwnt.

### Beth fydd yr interniaeth yn ei olygu?

Bydd interniaid yn cwrdd â'u rheolwr llinell unwaith y mis i gynllunio a thrafod cynnydd. Bydd yr interniaid yn cael y cyfle i gydweithio ar brosiectau gwahanol ac i gymryd rolau blaenllaw mewn digwyddiadau cysylltiedig sy'n digwydd drwy'r flwyddyn. Bydd yr interniaid yn gweithio'n annibynnol a chydag interniaid eraill neu gynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr / staff/myfyrwyr i gwblhau prosiectau. Bydd llawer o'r gwaith yn cael ei arwain gan yr interniaid o ran amser a bydd yn gofyn am ymrwymiad o 10-15 awr y mis.

Bydd angen i chi gwblhau adroddiadau misol am y gweithgareddau a gyflawnoch ac am eich gweithgareddau arfaethedig. Mae'n rhaid i'r rhain gael eu hanfon at eich rheolwr llinell ar ddiwedd pob mis.

### Manteision

- Taliad misol rheolaidd ar hyd cyfnod yr interniaeth yn seiliedig ar berfformiad
- Profiad o weithio gyda thîm ar brosiect mewn amgylchedd proffesiynol
- Gwybodaeth am dechnegau rheoli amgylcheddol mewn swyddfeydd a sefydliadau academaidd
- Cipolwg ar ddulliau newid ymddygiad effeithiol
- Profiad cyfathrebu gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau
- Sgiliau cyfathrebu rhyngbersonol
- Gallu i gynllunio gweithgareddau a'u cyflawni'n effeithiol hyd at eu gweithredu
- Sgiliau arwain
- Rheoli amser
- Rheoli prosiectau
- Sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn helpu i'ch CV sefyll allan mewn marchnad swyddi gystadleuol.